

# Cynnig i adolygu'r Ddarpariaeth Addysg Gynradd yn ardaloedd Mynyddygarreg a Gwenllian

## Dogfen Ymgynghori



[sirgar.gov.uk](http://sirgar.gov.uk)

Cyngor **Sir Gâr**  
**Carmarthenshire**  
County Council



## **Yr Adain Moderneiddio Ysgolion**

**Sara Griffiths**, Rheolwr y Tîm Moderneiddio

Os oes angen y wybodaeth hon arnoch mewn print bras, mewn Braille, neu ar dâp sain, cysylltwch â'r Adran Addysg a Phlant

**E-bost:** [aaprma@sirgar.gov.uk](mailto:aaprma@sirgar.gov.uk)

**Ffôn:** 01267 246618

## Rhagair

Fel rhan o'i rwymedigaeth statudol i adolygu nifer a mathau'r lleoedd sydd ar gael yn ei ysgolion, mae'r Cyngor Sir wedi mabwysiadu rhaglen eang ei chwmpas a luniwyd i wella adeiladau ysgolion ac i hyrwyddo cyfleoedd dysgu. Mae'r strategaeth yn adlewyrchu'r weledigaeth a'r polisiau a sefydlwyd gan y Cyngor Sir sy'n cwmpasu'r angen i ddarparu gwasanaethau sy'n cyrraedd safonau clir – o ran cost ac ansawdd – a hynny yn y modd mwyaf darbodus ac effeithiol. Yn ein hymgyrch i wella'n barhaus y gwasanaethau sydd ar gael i bob dysgwr, mae'n ofynnol ein bod yn manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i'r Cyngor, ac yn parhau i weithio mewn partneriaeth â phawb sydd â chyfraniad i'w wneud i'r broses ddysgu ac i lesiant plant a'u teuluoedd. Bydd angen i ysgolion y dyfodol fod yn ganolbwynt ar gyfer ystod eang o wasanaethau a drefnwyd yn bwrpasol i fodloni anghenion y gymuned mewn modd cydgysylltiedig.

Yn ffodus iawn mae gan Sir Gaerfyrddin nifer fawr o arweinwyr addysg ac athrawon dawnus, ond mae'r newidiadau parhaus a wneir i'r cwricwlwm yn rhoi pwysau mawr ar eu sgiliau i fodloni galwadau hynod amrywiol pob plentyn. Er mor bwysig yw'r prosesau dysgu a'r sgiliau addysgu, mae'n hanfodol fod gan athrawon wybodaeth drylwyr am bynciau os yw dysgwyr, â'u hamrywiol ddoniau mewn gwahanol feysydd, i ddarganfod eu galluoedd a'u datblygu i'r eithaf.

Mae disgwyl i'r ysgolion hynny a gynlluniwyd fel eu bod yn bodloni'r galwadau presennol ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys drwy ddulliau addysgu sy'n ysbrydoledig ac o safon uchel. Wrth gynllunio darpariaeth newydd bydd yn bwysig sicrhau bod ein hysgolion yn cynnwys yr offer priodol i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer cynhwysiant cymdeithasol, datblygu cynaliadwy, cyfle cyfartal a dwyieithrwydd. Yn ymarferol, mae gofyn inni sicrhau bod y ddarpariaeth yn adlewyrchu patrymau newidiol y boblogaeth a bod ysgolion yn y manau iawn a bod ganddynt adeiladau a chyfleusterau sy'n addas i ddiwallu anghenion pob dysgwr yn yr unfed ganrif ar hugain.

Bydd yr ymgynghori'n dilyn y canllawiau a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn cynnwys partion penodol sydd â diddordeb. Bwriedir i'r wybodaeth a geir yn y ddogfen hon egluro'r cynigion ynghylch eich ysgol a chynorthwyo'r broses ymgynghori.



**Gareth Morgans**

Cyfarwyddwr Addysg a Phlant

## Rhestr Byrfoddau

<b>ADY</b>	Anghenion Dysgu Ychwanegol
<b>ND</b>	Nifer derbyn
<b>CSC</b>	Cyngor Sir Caerfyrddin
<b>CC</b>	Cynradd Cymunedol
<b>DFf</b>	Dwy Ffrwd
<b>CS</b>	Cyfrwng Saesneg
<b>Estyn</b>	Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
<b>CALL</b>	Cyferwerth ag Amser Llawn
<b>ALI</b>	Awdurdod Lleol
<b>MCYC</b>	Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru
<b>RhMA</b>	Rhaglen Moderneiddio Addysg
<b>NOR</b>	Nifer y disgyblion ar y gofrestr
<b>CYBLD</b>	Data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion
<b>RhA</b>	Rhan-Amser
<b>CSCA</b>	Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg
<b>LIC</b>	Llywodraeth Cymru
<b>CC</b>	Cyfrwng Cymraeg

## **Cynnwys**

Cyflwyniad .....	6
Yr ysgolion sy'n destun y cynigion.....	6
Y Rhesymeg dros Newid .....	9
Y Cynnig.....	14
Y Broses Ymgynghori.....	34
Atodiad A – Aseiad o'r Effaith ar y Gymuned .....	38
Atodiad B – Aseiad o'r Effaith ar y Gymraeg .....	40
Atodiad C – Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb .....	42

## Cyflwyniad

Mae cyfrifoldeb cyfreithiol ar Gyngor Sir Caerfyrddin i adolygu nifer a math yr ysgolion y mae'n eu cynnal yn yr ardal ac a yw'n llwyddo ai peidio i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau a'r cyfleusterau sydd ar gael i ddarparu'r cyfleoedd y mae plant yn eu haeddu.

Fel rhan o'r broses hon mae'r Cyngor wedi cyhoeddi ei weledigaeth ar gyfer y dyfodol o ran holl ysgolion cynradd ac uwchradd y Sir, ac mae hyn yn cynnwys ymgynghori ar y trefniadau addysg yn ardaloedd Mynyddygarreg a Gwenllian yn y dyfodol.

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn amlinellu'r ddarpariaeth a'r opsiynau presennol i benderfynu ar yr ateb gorau ar gyfer diwallu anghenion y dyfodol.

## Yr ysgolion sy'n destun y cynigion

		Ysgol Gymraeg Gwenllian	Ysgol Gynradd Mynyddygarreg
<b>Lleoliad yr Ysgol</b>		SA17 4UT	SA17 4RL
<b>Ystod Oedran</b>		3-11	4-11
<b>Categori'r Ysgol</b> (Cymunedol, Gwirfoddol a Gynorthwyir, Gwirfoddol a Reolir)		Cymunedol	Cymunedol
<b>Categori Iaith</b>		Cyfrwng Cymraeg	Cyfrwng Cymraeg
<b>Nifer y disgyblion ar y gofrestr (lonawr 2020)</b>	<b>Oedran Meithrin</b>	19	1
	<b>Derbyn – B.6</b>	100	35
	<b>Cyfanswm</b>	119	36
<b>Nifer y disgyblion ar y gofrestr yn flaenorol</b>	<b>lonawr 2019</b>	117	35
	<b>lonawr 2018</b>	120	32
	<b>lonawr 2017</b>	129	29
	<b>lonawr 2016</b>	136	33
<b>Amcanestyn iad ynghylch Nifer y Disgyblion</b>	<b>lonawr 2021</b>	125	38
	<b>lonawr 2022</b>	130	42
	<b>lonawr 2023</b>	131	40
	<b>lonawr 2024</b>	133	37
	<b>lonawr 2025</b>	135	39
<b>Nifer y lleoedd (yn cynnwys oedran meithrin)</b>		140	55
<b>Cost fesul disgybl (2020/21)</b>		£3,611	£4,768
<b>Cyllideb Ysgol (2020-21)</b>		£412k	£172k
<b>Canlyniad Arolygiad Estyn</b>		<a href="#">Estyn</a>	<a href="#">Estyn</a>
<b>Categori Cyflwr Adeilad</b>		B	C

## Cefndir

### Ysgol Gynradd Mynyddygarreg

Mae Ysgol Gynradd Mynyddygarreg wedi'i lleoli ym mhentref Mynyddygarreg ger Cydweli yn Sir Gaerfyrddin. Mae'n gwasanaethu'r pentref a'r ardal wledig o'i amgylch. Mae'r ysgol yn darparu addysg i ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed.

Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn rhannu Pennaeth mewn ffederasiwn anffurfiol ag Ysgol Gymraeg Gwenllian sydd wedi bod ar waith ers mis Ionawr 2020. Cyn hyn, roedd yr ysgol mewn ffederasiwn anffurfiol ag Ysgol Trimsaran.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae nifer y disgyblion wedi aros yn weddol gyson ond mae wedi bod yn is na chapasiti'r ysgol. Caiff y disgyblion eu haddysgu mewn dau ddsbarth oedran cymysg gyda'r naill a'r llall yn rhychwantu pedwar grŵp blwyddyn. Dangosodd CYBLD Ionawr 2020 fod 36 o ddisgyblion yn yr ysgol a bod 19 o leoedd gwag.

Er bod 113 o ddisgyblion yn byw o fewn dalgylch Ysgol Gynradd Mynyddygarreg, **dim ond 22 o'r disgyblion hynny sy'n mynychu'r ysgol**, sy'n golygu bod 91 o ddisgyblion sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol yn mynychu ysgolion eraill.

Yn seiliedig ar amcanestyniadau cyfredol ynghylch nifer y disgyblion, amcangyfrifir y bydd nifer y disgyblion yn parhau i fod gryn dipyn yn is na'r capasiti ar gyfer y dyfodol rhagweladwy.

Mae adeilad Ysgol Gynradd Mynyddygarreg mewn cyflwr gwael. Byddai moderneiddio'r adeilad a darparu'r cyfleusterau y byddai'r Cyngor yn dymuno eu darparu yn waith sylweddol, ac ni ellid cyfiawnhau hynny o ystyried nifer isel a gostyngol y disgyblion.

Barnodd arolygiad diweddaraf Estyn o'r ysgol, a gwblhawyd ym mis Mehefin 2014, fod perfformiad presennol yr ysgol yn 'ddigonol' a bod y rhagolygon ar gyfer gwella yn 'dda'.

Yn ogystal, mae cael cyn lleied o ddisgyblion yn yr ysgol yn effeithio ar ddyraniad cyllideb yr ysgol. Mae'r ysgol wedi bod mewn diffyg ariannol ers diwedd blwyddyn ariannol 2016/17 ac mae wedi cario diffyg o £48,265 i mewn i flwyddyn ariannol 2020/21.

### Ysgol Gymraeg Gwenllian

Lleolir Ysgol Gymraeg Gwenllian yn nhref hanesyddol Cydweli yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r dref ei hun a'r ardal wledig o'i hamgylch. Mae'r ysgol yn darparu addysg i ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae nifer y disgyblion wedi aros yn weddol gyson ond mae wedi bod yn is na capasiti'r ysgol. Ar hyn o bryd caiff y disgyblion eu haddysgu mewn pum dosbarth – dosbarth Meithrin/Derbyn, dosbarth Blwyddyn 1/2, dosbarth Blwyddyn 3, dosbarth Blwyddyn 4 a dosbarth Blwyddyn 5/6. Dangosodd CYBLD Ionawr 2020 fod 119 o ddisgyblion yn yr ysgol a bod 21 o leoedd gwag.

Er bod 262 o ddisgyblion yn byw o fewn dalgyrch Ysgol Gymraeg Gwenllian, **dim ond 70 o'r disgyblion hynny sy'n mynychu'r ysgol**, sy'n golygu bod 192 o ddisgyblion sy'n byw o fewn dalgyrch yr ysgol yn mynychu ysgolion eraill.

Barnodd arolygiad diweddaraf Estyn o'r ysgol, a gwblhawyd ym mis Ebrill 2014, fod perfformiad presennol yr ysgol a'r rhagolygon ar gyfer gwella yn 'ddigonol'.

Er bod nifer y disgyblion yn yr ysgol wedi gostwng ychydig dros y tair blynedd diwethaf, mae gan yr ysgol gyllideb dros ben o -£1,908 ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21.

Mae adeilad presennol Ysgol Gynradd Gwenllian mewn cyflwr gwael. Byddai moderneiddio'r adeilad a darparu'r cyfleusterau y byddai'r Cyngor yn dymuno eu darparu yn waith sylweddol ac ni fyddai modd cyfiawnhau hynny.

Yn seiliedig ar yr amcanestyniadau disgyblion cyfredol, amcangyfrifir y bydd ffigurau'r disgyblion yn cynyddu dros y blynyddoedd nesaf a disgwylir iddynt fod yn agos at y capasiti erbyn 2025. Mae'n debygol y bydd y tueddiad hwn yn parhau hyd y gellir rhagweld, ac, o ganlyniad, mae'r Awdurdod Lleol yn datblygu cynllun i gynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Gymraeg Gwenllian i 240 (210 + 30 o leoedd meithrin) trwy ddarparu ysgol newydd gyda chyfleusterau sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif ar safle newydd.

Bydd y prosiect yn adleoli Ysgol Gymraeg Gwenllian o'i safle presennol i safle newydd sydd o fewn dalgyrch presennol Ysgol Gymraeg Gwenllian. Bydd yr ysgol newydd yn darparu adeilad ysgol gynradd o safon Llywodraeth Cymru gyda'r gallu i ddarparu ar gyfer 240 o ddisgyblion (210 + 30 o ddisgyblion meithrin) rhwng 3 ac 11 oed, a sicrhair bod yr ysgol yn gallu cyflwyno'r cwricwlwm llawn mewn amgylcheddau dysgu modern, diogel ac ysbrydoledig gydag ardaloedd allanol helaeth.

Bydd y buddsoddiad arfaethedig hwn yn mynd i'r afael â chyflwr gwael yr adeilad a'r diffyg lle a darpariaeth yn yr ysgol bresennol trwy ddarparu lleoedd digonol ar gyfer y galw presennol a'r galw arfaethedig mewn ysgol categori **A**.

Nododd yr arolygiad diwethaf gan Estyn, a gwblhawyd ym mis Ebrill 2014, fod yr ysgol yn defnyddio cyfleusterau lleol ar gyfer eu gweithgareddau chwaraeon ar hyn o bryd. Bydd gan yr adeilad ysgol newydd ei Faes Chwarae Amldefnydd ei hun yn ogystal â chae chwaraeon a fydd yn rhan o ddyluniad yr ysgol newydd.



# Y Rhesymeg dros Newid

## Ysgol Gynradd Mynyddygarreg

Mae nifer y disgyblion yn Ysgol Gynradd Mynyddygarreg wedi bod yn weddol gyson dros y pum mlynedd diwethaf. Mae nifer y disgyblion wedi cynyddu'n raddol o 33 yn Ionawr 2016 i 36 yn Ionawr 2020. Fodd bynnag, mae gan yr ysgol 19 o leoedd gwag neu 35% ar hyn o bryd (Ionawr 2020).

Fel y nodwyd yn y ddogfen Côt Trefniadaeth Ysgolion (2018) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru;

*Os oes mwy na 10% o leoedd gwag mewn ardal yn gyffredinol, **dylai** awdurdodau lleol adolygu eu darpariaeth a **dylent** ystyried pa un ai i wneud cynigion i'w gwaredu os bydd hyn yn gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y ddarpariaeth. Diffinnir lefel sylweddol o leoedd gwag fel 25% neu fwy o leoedd yr ysgol (fel y'u diffinnir yng nghylchlythyr 21/2011) ac o leiaf 30 o leoedd heb eu llenwi.*

Os caiff y cynnig hwn ei weithredu bydd yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar leoedd gwag yn yr ardal.


Mae cael cyn lleied o ddisgyblion mewn ysgol yn effeithio ar ddyraniad cyllideb yr ysgol. Mae Ysgol Gynradd Mynyddygarreg yn cael ei hariannu'n unol â fformiwla ariannu'r Cyngor Sir. O dan Reoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010, mae'n rhaid i Gyllideb Ysgolion Unigol gael ei dyrannu ymhlith ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod ar ffurf rhannu cyllideb, gan ddefnyddio fformiwla ariannu a bennir yn lleol. Mae'n ofynnol yn ôl y rheoliadau fod 70% o'r cyllid yn cael ei ddsbarthu ar sail niferoedd disgyblion. Mae'r fformiwla ariannu bresennol yn cefnogi ysgolion o'r fath (sydd â llai na 40 o ddisgyblion) drwy ddarparu cyllid ychwanegol drwy'r tâl atodol i ysgolion bach. Mae'r ysgol hefyd yn cael cymorth grant ychwanegol pwysedig o achos nifer fach y disgyblion.

Mae'r ysgol wedi bod mewn diffyg ariannol ers diwedd blwyddyn ariannol 2016/17 ac mae'n parhau i fod â diffyg o £48,265 ar gyfer 2020/21.

Mae'r diffyg yn y gyllideb, niferoedd isel y disgyblion, a thoriadau i'r gyllideb wedi rhoi'r ysgol mewn sefyllfa ariannol eithriadol o anodd.

Mae niferoedd isel y disgyblion a chanran uchel o leoedd gwag wedi bod yn her i Ysgol Gynradd Mynyddygarreg yn y pum mlynedd diwethaf.

Mae'r graff isod yn dangos nifer y disgyblion yn yr ysgol dros y pum mlynedd diwethaf.




### Gwybodaeth am Nifer y Lleoedd

Dangosir y lleoedd gwag ar hyd y blynyddoedd diwethaf yn Ysgol Gynradd Mynyddygarreg yn y tabl canlynol:

	Ion 16	Ion 17	Ion 18	Ion 19	Ion 20
<b>Ysgol Gynradd Mynyddygarreg</b>	55	55	55	55	55
Cyfanswm nifer y lleoedd					
Nifer y Disgyblion	33	29	32	35	36
Lleoedd gwag	22	26	23	20	19
% y lleoedd gwag	40%	47%	42%	36%	35%

Fel y gellir gweld o'r tabl, mae canran sylweddol o leoedd gwag wedi bod yn Ysgol Gynradd Mynyddygarreg yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Mae canran lleoedd gwag Ysgol Gynradd Mynyddygarreg yn y pum mlynedd diwethaf wedi bod yn fwy na 25%, ac mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod hynny'n 'sylweddol'. Mae Llywodraeth Cymru yn cynghori awdurdodau lleol i adolygu eu darpariaeth lle bo mwy na 10% o leoedd gwag mewn ardal gyfan. Mae'r amcanestyniadau yn dangos bod disgwyl i'r niferoedd gynyddu'n raddol. Fodd bynnag, hyd yn oed gyda'r amcanestyniadau uchaf o 42 o ddisgyblion yn 2022, bydd gan yr ysgol 13 o leoedd gwag o hyd (23% dros ben).




## Ysgol Gymraeg Gwenllian

Mae gan yr Awdurdod Lleol weledigaeth ar gyfer Sir Gaerfyrddin ddwyieithog ac ymrwymiad i ddarparu ysgolion categori A sydd â digon o leoedd i ateb y galw presennol a'r galw a ragwelir ac sydd â chyfleusterau addas ar gyfer yr 21ain ganrif.

Mae niferoedd disgyblion Ysgol Gymraeg Gwenllian wedi gostwng yn ystod pedair o'r pum mlynedd diwethaf ond bu cynnydd yn y galw am addysg Gymraeg ac mae'r duedd hon yn debygol o barhau hyd y gellir rhagweld. O ganlyniad, mae'r Awdurdod Lleol yn datblygu cynllun i gynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Gymraeg Gwenllian i 240 (210 + 30 o leoedd meithrin) trwy ddarparu ysgol newydd gyda chyfleusterau sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif ar safle newydd yn lle'r adeilad presennol sydd mewn cyflwr B. Bydd y buddsoddiad arfaethedig yn mynd i'r afael â chyflwr gwael yr adeilad a'r diffyg lle digonol yn yr ysgol bresennol drwy ddarparu ysgol newydd ar safle newydd â chyfleusterau ar gyfer yr 21ain ganrif.

Mae'r graff isod yn dangos nifer y disgyblion yn yr ysgol dros y pum mlynedd diwethaf.



Fel y gwelir o'r graff uchod, mae cwmp cyson wedi bod yn nifer y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gymraeg Gwenllian dros y pum mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae'r niferoedd bellach yn dechrau cynyddu a disgwylir i'r duedd hon barhau.


### Gwybodaeth am Nifer y Lleoedd

Dangosir y lleoedd gwag ar hyd y blynyddoedd diwethaf yn Ysgol Gymraeg Gwenllian yn y tabl canlynol:

	Ion 16	Ion 17	Ion 18	Ion 19	Ion 20
<b>Ysgol Gymraeg Gwenllian</b>	140	140	140	140	140
Cyfanswm nifer y lleoedd					
Nifer y Disgyblion	136	129	120	117	119
Lleoedd gwag	4	11	20	23	21
% y lleoedd gwag	3%	8%	14%	16%	15%

Fel y gellir gweld o'r tabl, mae canran y lleoedd gwag yn Ysgol Gymraeg Gwenllian wedi cynyddu yn ystod pedair o'r pum mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae'r amcanestyniadau'n dangos bod disgwyl i'r niferoedd barhau i gynyddu'n raddol ac erbyn 2025 rhagwelir mai canran fach o leoedd gwag o 3% yn unig fydd.

### Amcanestyniadau o Niferoedd y Disgyblion yn Ysgol Gymraeg Gwenllian 2020-2025



## Y Cynnig

- Dod ag Ysgol Gynradd Mynyddygarreg i ben ar 31 Awst, 2021.
- O 1 Medi, 2021 bydd pob disgybl wedi'i gofrestru yn Ysgol Gymraeg Gwenllian, gan weithredu ar y ddau safle (Ysgol Gymraeg Gwenllian a hen Ysgol Gynradd Mynyddygarreg) gan gynyddu nifer y lleoedd i 178 + 17 o leoedd meithrin.
- Ailddynodi dalgylch Ysgol Gymraeg Gwenllian er mwyn cynnwys dalgylch hen Ysgol Gynradd Mynyddygarreg o 1 Medi, 2021.
- Adleoli Ysgol Gymraeg Gwenllian i safle newydd a chynyddu nifer ei lleoedd i 210 + 30 o leoedd meithrin o fis Medi 2023, pan gynigir bod yr ysgol yn symud i'w hadeilad newydd.

### Lleoliad adeilad newydd yr ysgol

Fel rhan o Raglen Moderneiddio Addysg Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif, mae safle arfaethedig sy'n cael ei ffafrio wedi cael ei nodi ar gyfer lleoliad adeilad newydd yr ysgol. Mae lleoliad y safle arfaethedig a ffefrir o fewn milltir i safle presennol Ysgol Gymraeg Gwenllian ond mae dros filltir o bellter o Ysgol Gynradd Mynyddygarreg. Er bod y cynigion a nodir yn y ddogfen hon yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor Sir a bod y buddsoddiad cyfalaf yn y dyfodol yn amodol ar gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, mae angen ymgynghori ar adleoli Ysgol Gymraeg Gwenllian er mwyn bodloni'r Côt Trefniadaeth Ysgolion (2018).


Mae'r map o'r awyr a ddangosir ar dudalen 14 yn dangos y lleoliad arfaethedig\* a ffefrir ar gyfer adeilad newydd yr ysgol.

*(\* Yn amodol ar gael pob cymeradwyaeth berthnasol.)*

Lleoliad presennol  
Ysgol Gymraeg Gwenllian

Y Safle a Ffefrir ar gyfer  
Adeilad  
Arfaethedig Newydd yr  
Ysgol

Lleoliad presennol  
Ysgol Gynradd Mynyddgarreg



Lleoliad presennol  
Ysgol Gymraeg Gwenllian

Y Safle a Ffefrir ar gyfer Adeilad  
Arfaethedig Newydd yr Ysgol



## Manteision ac Anfanteision y Cynnig

### Manteision

- Digon o leoedd cyfrwng Cymraeg i ateb y galw presennol a'r galw a ragwelir.
- Gwell cyfleusterau, sy'n addas i'r 21ain ganrif, er mwyn galluogi cyflwyno cwricwlwm modern llawn.
- Mwy o fynediad at gyfleoedd dysgu, cyfleoedd chwaraeon a chyfleoedd diwylliannol.
- Darparu addysg gynradd mewn adeiladau sy'n bodloni dyheadau rhaglen amlinellol strategol Ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif yr Awdurdod Lleol.
- Sicrhau defnydd mwy effeithlon o adnoddau ariannol.
- Gwella effeithlonrwydd ynni yr ystâd.
- Lleihau nifer y lleoedd gwag mewn ardal er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau a'i gyfleusterau.
- Amgylchedd addysgu mwy boddhaus yn gwella morâl.
- Strwythur staffio, rheoli a chefnogi mwy effeithiol.
- Mwy o gyfle o ran datblygiad proffesiynol a phersonol athrawon.
- Amgylchedd a fydd yn ysgogi dysgu i'r dysgwyr.
- Gwella defnydd cymunedol o gyfleusterau'r ysgol.
- Mannau allanol gwell a lleoedd pwrpasol i chwarae yn yr awyr agored.
- Cyfleusterau meithrin addas i'r diben yn unol â gofynion y Cyfnod Sylfaen.

### Anfanteision

- Angen proses statudol i ysgogi newid.
- Cyllid er mwyn buddsoddi yn dibynnu ar gymeradwyo achos busnes.
- Amser teithio hwy ar gyfer rhai disgyblion.
- Cymuned Mynyddygarreg yn colli presenoldeb yr ysgol yn y gymuned/ardal gyfagos.

## Risgiau a Mesurau i'w Lliniaru

Risg		Y Mesur i Liniaru'r Risg
1.	Methu â chael cymeradwyaeth statudol i weithredu'r broses.	- Dilyn y canllawiau a bennwyd yn Nghôd Trefniadaeth Ysgolion 2018 -
2.	Methiant â chael cymeradwyaeth i'r achosion busnes	- Dilyn canllawiau achos busnes fel y'u nodir yn Rhaglen Ysgolion yr 21 <sup>ain</sup> Ganrif a chanllawiau achos busnes Rhaglen Cyllido Addysg 2018



3.	Ymgynghoriad anfoddhaol â'r gymuned	- Datblygu strategaeth gyfathrebu ac ymgynghori'n rheolaidd i fynd i'r afael â phryderon
----	-------------------------------------	--

## Dalgylch yr Ysgol

Bydd dalgylch presennol Ysgol Gymraeg Gwenllian yn cael ei ymestyn i gynnwys dalgylch presennol Ysgol Gynradd Mynyddygarreg (os gweithredir y cynnig i ddod ag Ysgol Gynradd Mynyddygarreg i ben).

## Trosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd

Ni fydd unrhyw newid yn y trefniadau presennol o ran disgyblion yn trosglwyddo i addysg Uwchradd.

## Staffio

Rhoddir sylw i'r goblygiadau o ran staffio yn unol â Gweithdrefnau a Pholisi Adleoli Staff y Cyngor Sir.

Mae gan yr Awdurdod Lleol bolisiâu a gweithdrefnau staffio yn ymwneud ag ad-drefnu ysgolion a bydd y rhain yn cael eu gweithredu os oes angen. Bydd yr Awdurdod yn cefnogi staff ysgolion i gael cyflogaeth arall addas os bydd modd, trwy brosesau adleoli pe bai hyn yn angenrheidiol.

## Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg

Mae'r cynnig hwn yn ceisio cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg yn ardaloedd Mynyddygarreg a Gwenllian. Mae hyn yn cefnogi'r targedau a amlinellwyd yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin 2017-2020 a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Lleol ac mae'n cefnogi nod Llywodraeth Cymru 'Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg'. Mae hefyd yn cefnogi'r Targedau Iaith Gymraeg sirol newydd a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg dros 10 mlynedd.

## Goblygiadau Ariannol - Refeniw

Caiff Ysgol Gynradd Mynyddygarreg ac Ysgol Gymraeg Gwenllian eu cyllido yn unol â pholisi Ariannu Teg y Cyngor Sir a byddant yn derbyn adnoddau ar yr un sail ag

unrhyw ysgol arall yn y Cyngor Sir, a hynny yn seiliedig ar nifer y disgyblion a chyfleusterau'r ysgol newydd.

## **Derbyniadau Cyfalaf**

Bydd unrhyw dderbyniadau cyfalaf a geir o ganlyniad i'r cynnig hwn yn cael eu hailfuddsoddi yn y Rhaglen Moderneiddio Addysg.

## **Tir ac Adeiladau**

Un safle ysgol afraid – Ysgol Gynradd Mynyddygarreg. Os mabwysiedir y cynnig, trosglwyddir yr eiddo i'r Is-adran Eiddo Corfforaethol o'r Adran Adfywio a Pholisi er mwyn gweithredu'r gweithdrefnau a amlinellwyd yn y polisi ynghylch Defnyddio yn y Dyfodol/Gwaredu Tir ac Adeiladau Afraid o ganlyniad i'r Rhaglen Moderneiddio Addysg. Datblygwyd y polisi hwn er mwyn gallu cynnig yr ased i'r gymuned yn gyntaf oll cyn gosod y safle ar y farchnad agored.

## **Trefniadau Pontio**

Yn ystod y cyfnod pontio bydd y disgyblion yn aros ar eu safleoedd ysgol presennol o dan reolaeth Ysgol Gymraeg Gwenllian hyd nes bod yr adeilad newydd yn barod i symud iddo er mwyn darparu ar gyfer holl ddisgyblion Ysgol Gynradd Mynyddygarreg ac Ysgol Gymraeg Gwenllian.

## **Trefniadau Derbyn**

Y Cyngor Sir yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer Ysgol Gynradd Mynyddygarreg ac Ysgol Gymraeg Gwenllian.

Yr Uned Derbyn Disgyblion i Ysgolion,  
Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin  
Yr Adran Addysg a Phlant,  
Adeilad 2,  
Y Prif Adeilad,  
Parc Dewi Sant,  
Caerfyrddin. SA31 3HB  
Rhif Ffôn: 01267 246449

E-bost: [derbyniadau@sirgar.gov.uk](mailto:derbyniadau@sirgar.gov.uk)

## Asesiad o'r Effaith ar Gludiant

Darperir cludiant yn unol â gofynion statudol Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008. Mae'r pellter o Ysgol Gynradd Mynyddygarreg i safle arfaethedig newydd Ysgol Gymraeg Gwenllian dros 1 filltir.

Bydd adeilad ysgol newydd Ysgol Gymraeg Gwenllian yn cael ei gynllunio i gynnwys manau diogel ar gyfer gollwng a chasglu disgyblion. Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, edrychir ar lwybrau diogel i'r ysgol fel rhan o'r Asesiad o'r Effaith ar Gludiant ar gyfer adeilad newydd yr ysgol.

## Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Gweler Atodiad A o'r ddogfen ymgynghori hon, i gael manylion llawn am yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a gynhaliwyd.

## Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Gweler Atodiad B o'r ddogfen ymgynghori hon lle ceir manylion llawn am yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a gynhaliwyd.

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Gweler Atodiad C o'r ddogfen ymgynghori hon, lle ceir manylion llawn am yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd.

## Opsiynau Eraill a Ystyriwyd

Wrth ddatblygu opsiwn a ffefrir, bu'r Awdurdod yn ystyried amrywiaeth o opsiynau.

<b>Y Sefyllfa Bresennol – dim newid i Ysgol Gynradd Mynyddygarreg</b>	
<b>Manteision</b>	<b>Anfanteision</b>
Dim newid i'r rhanddeiliaid	Disgyblion yn dal i gael eu haddysgu mewn adeilad cyflwr C
Ni fydd angen proses statudol	Heb fod yn ymarferol yn ariannol yn y tymor hir
Cymuned Mynyddygarreg yn cadw presenoldeb ysgol	Disgyblion yn dal i gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau oedran cymysg
	Diffyg arweinyddiaeth gynaliadwy
	Nifer isel o ddisgyblion a nifer uchel o leoedd gwag

	Cyfleusterau modern annigonol i gefnogi'r cwricwlwm newydd a dysgu digidol
	Fe gollir cyfleoedd i sicrhau synergerddau
	Opsiwn mwy costus.

<b>Ffederasiwn - Ffederasiwn ffurfiol rhwng Ysgol Gynradd Mynyddygarreg ac Ysgol Gymraeg Gwenllian</b>	
<b>Manteision</b>	<b>Anfanteision</b>
Cyfle i rannu rheolaeth, cyfrifoldeb corff llywodraethol ac arbenigedd cwricwlaidd	Angen proses gyfreithiol
Ehangu cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol staff	Ni fydd yn mynd i'r afael â'r diffyg yn y gyllideb yn Ysgol Gynradd Mynyddygarreg.
Galluogi ysgolion i gronni adnoddau a staff	Nid yw'n ymdrin â'r nifer isel o ddisgyblion a'r lleoedd gwag yn Ysgol Gynradd Mynyddygarreg.
Ymestyn ehangder ac ansawdd y ddarpariaeth addysg	Disgyblion yn dal i gael eu haddysgu mewn adeiladau cyflwr B/C
Ymateb i anghenion ehangach disgyblion	Nid yw'n darparu cyfleusterau modern addas i'r 21ain ganrif i ddisgyblion
	Rheoli amser pennaeth dros ddwy ysgol
	Angen ad-drefnu'r ddau gorff llywodraethol
	Mwy o waith i lywodraethwyr yn y flwyddyn gyntaf o Ffedereiddio

<b>Y Sefyllfa Bresennol yn parhau ar gyfer Ysgol Gynradd Mynyddygarreg/Adeilad Ysgol Newydd ar gyfer Ysgol Gymraeg Gwenllian</b>	
<b>Manteision</b>	<b>Anfanteision</b>
Dim newid i randdeiliaid Ysgol Gynradd Mynyddygarreg	Disgyblion Ysgol Gynradd Mynyddygarreg yn parhau i gael eu haddysgu mewn adeilad ysgol cyflwr C
Dim cynnydd yn yr amserau teithio i Ysgol Gynradd Mynyddygarreg	Nid yw'n ymdrin â'r nifer isel o ddisgyblion a'r lleoedd gwag yn Ysgol Gynradd Mynyddygarreg.
Cymuned Mynyddygarreg yn cadw presenoldeb ysgol	Nid yw'n mynd i'r afael â'r diffyg yn y gyllideb yn Ysgol Gynradd Mynyddygarreg
Darperir adeilad a chyfleusterau addas i'r 21ain ganrif i ddisgyblion Ysgol Gymraeg Gwenllian	Angen cymeradwyo Achos Busnes i sicrhau cyllid i gael adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Gymraeg Gwenllian

Mynd i'r afael â'r pwysau disgwylidig ar leoedd yn Ysgol Gymraeg Gwenllian	
Darperir cyfleusterau modern i Ysgol Gymraeg Gwenllian er mwyn cefnogi'r cwricwlwm newydd a dysgu digidol	
Gwella'r cyfleusterau cymunedol a ddarperir trwy fuddsoddi yng nghymuned Cydweli	
Darperir amgylchedd dysgu o ansawdd da i ddisgyblion Ysgol Gymraeg Gwenllian er mwyn cefnogi llesiant disgyblion a gwella cynnydd dysgwyr	

<b>Dod ag Ysgol Gynradd Mynyddygarreg ac Ysgol Gymraeg Gwenllian i ben a chreu ysgol ardal newydd</b>	
<b>Manteision</b>	<b>Anfanteision</b>
Bydd disgyblion Ysgol Gynradd Mynyddygarreg yn aros yn eu hadeilad ysgol presennol hyd nes y symudir i'r ysgol newydd*	Cymuned Mynyddygarreg yn colli presenoldeb ysgol pan fydd disgyblion yn symud i adeilad ysgol newydd*
Yn mynd i'r afael â'r lleoedd gwag a'r pwysau ar leoedd yn Ysgol Gymraeg Gwenllian	Angen Prosesau Statudol a fyddai'n golygu dod â'r ddwy ysgol bresennol i ben a chynnig ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd.
Sicrhau bod pob disgybl yn cael ei addysgu mewn ysgolion cyflwr A	Angen cymeradwyo Achos Busnes i sicrhau grant gan Lywodraeth Cymru.
Darperir cyfleusterau modern i bob disgybl er mwyn cefnogi'r cwricwlwm newydd a dysgu digidol	Newid i randdeiliaid
Mynd i'r afael â'r diffyg yn y gyllideb yn Ysgol Gynradd Mynyddygarreg	Angen Prosesau Statudol i ddod â'r ddau gorff llywodraethu i ben a chreu corff llywodraethu newydd.
Darparu cyfleusterau cymunedol gwell at ddefnydd cymunedau Mynyddygarreg a Chydsweli	Diffyg cefnogaeth gan gymuned Ysgol Gwenllian gan y byddant yn colli eu hunaniaeth ysgol.
Byddai'r holl ddisgyblion ar un safle o dan arweinyddiaeth un Pennaeth.	Amser teithio ychwanegol i rai disgyblion o Ysgol Mynyddygarreg.
Byddai'r ystod oedran ehangach yn cynnig darpariaeth blynyddoedd cynnar.	

<b>Yr Opsiwn a Ffefrir</b>	
<b>Dod ag Ysgol Gynradd Mynyddygarreg i ben a chynnwys ei dalgylch yn nalgylch presennol Ysgol Gymraeg Gwenllian</b>	
<b>Manteision</b>	<b>Anfanteision</b>
Bydd disgyblion Ysgol Gynradd Mynyddygarreg yn aros yn eu hadeilad ysgol presennol hyd nes y symudir i'r ysgol newydd*	Cymuned Mynyddygarreg yn colli presenoldeb ysgol pan fydd disgyblion yn symud i adeilad ysgol newydd*
Yn mynd i'r afael â'r lleoedd gwag a'r pwysau ar leoedd yn Ysgol Gymraeg Gwenllian	Bydd angen proses statudol
Sicrhau bod pob disgybl yn cael ei addysgu mewn ysgolion cyflwr A	Angen cymeradwyo Achos Busnes i sicrhau grant gan Lywodraeth Cymru.
Darperir cyfleusterau modern i bob disgybl er mwyn cefnogi'r cwricwlwm newydd a dysgu digidol	Newid i randdeiliaid
Mynd i'r afael â'r diffyg yn y gyllideb yn Ysgol Gynradd Mynyddygarreg	Amser teithio ychwanegol i rai disgyblion o Ysgol Mynyddygarreg.
Bydd Ysgol Gwenllian yn cynnal ei hunaniaeth o fewn y gymuned.	Dim sicrwydd swydd i rai aelodau o staff.
Darparu cyfleusterau cymunedol gwell at ddefnydd cymunedau Mynyddygarreg a Chydweli	
Byddai'r holl ddisgyblion ar un safle o dan arweinyddiaeth un Pennaeth.	
Byddai'r ystod oedran ehangach yn cynnig darpariaeth blynyddoedd cynnar.	

**\*Cymeradwyo achos busnes/cyllid Llywodraeth Cymru**

## Yr ysgolion y bydd y cynnig hwn yn effeithio arnynt

	Ysgol Gynradd Mynydd-y-garreg	Ysgol Gymraeg Gwenllian	Ysgol y Castell	Ysgol y Fro	Ysgol Gynradd Gwynfryn	Ysgol Gynradd Pont-iets Gynradd	Ysgol Gynradd Yr Eglwys yng Nghymru Glanyfferi	Ysgol Gynradd Carwe	Ysgol Gymunedol Trimsaran	Ysgol Pen-bre	Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn	
<b>Lleoliad yr Ysgol</b>	SA17 4RL	SA17 4UT	SA17 4TR	SA17 5BW	SA15 5SN	SA15 5UB	SA17 5TB	SA17 4HE	SA17 4BE	SA16 0TP	SA16 0NL	
<b>Sirol</b>	<b>Sir Gaerfyrddin</b>											
<b>Ystod Oedran</b>	4-11	3-11	3-11	4-11	4-11	4-11	4-11	4-11	3-11	3-11	3-11	
<b>Categori'r Ysgol</b> (Cymunedol, Gwirfoddol a Gynorthwyir, Gwirfoddol a Reolir)	C	C	C	C	C	C	Gwirfoddol a Reolir	C	C	C	C	
<b>Categori Cyfrwng Iaith (CYBLD)</b>	CC	CC	CS	CC	CC	CC	CC	CC	CC	CS	CC	
<b>Nifer y disgyblion ar y gofrestr (Ionawr 2020)</b>	<b>Meithrin</b>	1	19	25	2	1	0	2	4	39	37	39
	<b>Derbyn – B.6</b>	35	100	208	26	60	37	37	54	151	194	223
	<b>Cyfanswm</b>	<b>36</b>	<b>119</b>	<b>233</b>	<b>28</b>	<b>61</b>	<b>37</b>	<b>39</b>	<b>58</b>	<b>190</b>	<b>231</b>	<b>262</b>
<b>Nifer y disgyblion ar y gofrestr yn flaenorol</b>	<b>Ionawr 2019</b>	35	117	257	28	62	41	40	55	184	241	270
	<b>Ionawr 2018</b>	32	120	263	33	64	44	44	48	171	235	270
	<b>Ionawr 2017</b>	29	129	267	32	67	52	62	40	172	235	262
	<b>Ionawr 2016</b>	33	136	264	33	70	53	74	52	185	238	252

Enw'r Ysgol		Ysgol Gynradd Mynyddy garreg	Ysgol Gymraeg Gwenllian	Ysgol y Castell	Ysgol y Fro	Ysgol Gynradd Gwynfryn	Ysgol Gynradd Pont-iets	Ysgol Gynradd Yr Eglwys yng Nghymru Glanyfferi	Ysgol Gynradd Carwe	Ysgol Gymunedol Trimsaran	Ysgol Pen-bre	Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn
Amcanestyn iadau o Nifer y Disgyblion	Ionawr 2021	38	125	235	27	58	35	36	60	203	229	257
	Ionawr 2022	42	130	232	29	55	33	36	63	209	225	263
	Ionawr 2023	40	131	229	28	53	27	36	59	208	229	268
	Ionawr 2024	37	133	233	28	49	28	33	59	205	221	260
	Ionawr 2025	39	135	233	24	50	27	34	57	214	223	256
Nifer y lleoedd (yn cynnwys meithrinfa)		55	140	244	41	96	85	122	124	240	240	360
Cost fesul disgybl (2020/21)		£4,768	£3,611	£3,998	£4,478	£4,297	£5,491	£4,423	£4,738	£3,871	£3,724	£3,627
Cyllideb yr Ysgol		£172k	£412k	£906k	£125k	£262k	£209k	£173k	£275k	£705k	£827k	£908k
Canlyniad Estyn	Arolygiad	<a href="#">Estyn</a>	<a href="#">Estyn</a>	<a href="#">Estyn</a>	<a href="#">Estyn</a>	<a href="#">Estyn</a>	<a href="#">Estyn</a>	<a href="#">Estyn</a>	<a href="#">Estyn</a>	<a href="#">Estyn</a>	<a href="#">Estyn</a>	<a href="#">Estyn</a>
Categori Cyflwr Adeilad		C	B	B	B	B	C	C	B	A	B	A



## Gwerthusiad o'r Trefniadau Presennol

### Ysgol Gynradd Mynyddygarreg

Cynhaliodd Estyn arolygiad o Ysgol Gynradd Mynyddygarreg ym mis Mehefin 2014. Barnwyd bod safonau'r ysgol yn 'Ddigonol'. O ganlyniad i hyn, barnwyd bod angen monitro'r ysgol. Barnwyd bod ei gallu i wella yn 'dda' ac yn sgil cynnydd da'r ysgol yn erbyn argymhellion Estyn, yn dilyn cefnogaeth ddwys gan y gwasanaeth gwella ysgolion, rhyddhawyd yr ysgol oddi wrth drefn fonitro Estyn ym mis Rhagfyr 2015.

Penodwyd y Pennaeth presennol i'w swydd ym mis Ionawr 2020 mewn ffederasiwn anffurfiol gydag Ysgol Gwenllian. Roedd y Pennaeth blaenorol wedi bod yn ei swydd o fis Medi 2018 tan fis Rhagfyr 2019.

Caiff y disgyblion eu haddysgu mewn dwy ystafell ddosbarth: un dosbarth Cyfnod Sylfaen ac un dosbarth Cyfnod Allweddol 2, gyda'r naill a'r llall yn rhychwantu pedwar grŵp blwyddyn. Ar hyn o bryd cyflogir Pennaeth (0.2) yn yr ysgol ynghyd â 2 athro llawn amser a 2 Gynorthwydd Addysgu llawn amser.

### Safonau

- Mae data llinell sylfaen ysgolion yn cadarnhau bod y rhan fwyaf o blant yn dechrau'r ysgol ar lefel sy'n is na'r disgwyl o gymharu â'r ymddygiadau sy'n briodol i'w hoedran. Mae bron pob un o ddisgyblion yr ysgol yn gwneud y cynnydd disgwylidig o ystyried eu dechrau yn yr ysgol. Mae ychydig o ddisgyblion yn gwneud cynnydd gwell na'r disgwyl o safbwynt eu hoedran a'u gallu.
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar oedolion ac ar ei gilydd ac yn siarad yn hyderus mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Mae bron pob un o'r plant yn gwneud cynnydd yn unol â'u hoedran a'u gallu o safbwynt eu sgiliau llafar, eu sgiliau darllen a'u sgiliau ysgrifennu ac o ystyried lle'r oeddent arni pan wnaethant ddechrau yn yr ysgol.
- Mae llawer o blant yn datblygu sgiliau rhif yn unol â'u hoedran a'u gallu ac yn defnyddio'r dulliau cywir i ddatrys problemau'n effeithiol. Mae llawer yn gallu defnyddio data'n effeithiol a defnyddio eu sgiliau rhif yn bwrpasol ar draws y cwricwlwm.
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus wrth ddefnyddio technoleg gwybodaeth ac yn defnyddio HWB yn llwyddiannus i gyfoethogi dysgu ar draws y cwricwlwm.
- Ceir tuedd amrywiol yng nghanlyniadau asesiadau ar ddiwedd y cyfnod sylfaen ar y deilliant disgwylidig dros y tair blynedd diwethaf. Ar y lefelau uwch, unwaith eto ceir patrwm amrywiol. Mae effaith disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ym mhob carfan yn cael effaith ddramatig ar y Dangosydd Cyfnod Sylfaen a'r Dangosyddion Pynciau Craidd.
- Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, bu tuedd ar i fyny mewn canlyniadau ar draws y pynciau dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Dangosodd data olrhain fod y bechgyn yn gwneud cynnydd da yn unol â'u hoedran a'u gallu ac wrth ystyried eu man cychwyn isel. Mae'r amrywioldeb hwn hefyd yn wir am y garfan sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, mae bron pob disgybl sy'n gymwys i

gael prydau ysgol am ddim yn parhau i wneud cynnydd da o'u manau cychwyn ac adlewyrchir hyn yn y data olrhain a gedwir gan yr ysgol.

## Safonau Llesiant

- Mae Presenoldeb yn yr Ysgol wedi gwella dros y flwyddyn ddiwethaf o ganlyniad i ymyriadau effeithiol gan yr ysgol. Mae presenoldeb o fewn yr Oedran Ysgol Statudol wedi cynyddu 2.88% pwynt o 90.93% yn 2017-18 i 93.81% yn 2018-19. Mae presenoldeb yr ysgol gyfan wedi cynyddu 2.38% pwynt o 91.84% yn 2017-18 i 94.22% yn 2018-19.
- Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn mwynhau eu dysgu. Mae ganddynt agweddau da at ddysgu ac maent yn elwa o'r cysylltiadau rheolaidd ag ysgolion eraill.
- Mae ymddygiad y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda. Maent yn cydweithredu'n adeiladol yn eu grwpiau ac yn ymateb yn briodol i'r tasgau a osodir.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

- Mae defnyddio Tric a Chlic yn effeithiol yn y cyfnod sylfaen yn cael effaith gadarnhaol ar godi safonau wrth i ddisgyblion symud ymlaen o grŵp i grŵp ar y gyfradd ddisgwyliedig. Mae disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2 wedi cael eu grwpio yn ôl eu gallu ar gyfer sesiynau darllen Cymraeg a Saesneg ac mae'r ddarpariaeth wahaniaethol effeithiol yn sicrhau bod bron pob disgybl yn gwneud cynnydd pwrpasol. Cyflwynir y sesiynau hyn yn ddyddiol am 30 munud. Asesir disgyblion bob tymor ½ ac mae gweithdrefnau olrhain yr ysgol yn dangos bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da o'u manau cychwyn ac yn unol â'u hoedran a'u gallu. Mae gwaith cartref darllen wedi'i gyflwyno i bob plentyn o'r feithrinfa hyd at flwyddyn chwech. Mae'r cyfarfodydd rhieni yn cynnwys rhannu strategaethau'r ysgol i wella sgiliau darllen, a chyflwynwyd taflenni targed unigol pwrpasol yn ystod noson rieni eleni.
- Cyflwynwyd meysydd dysgu buddiol i Gyfnod Allweddol 2 ac mae hyn wedi arwain at fod disgyblion yn gallu dewis eu gweithgareddau dysgu eu hunain yn ystod y sesiynau heriau. Mae'r tasgau wedi'u gwahaniaethu'n effeithiol i ddarparu ar gyfer yr ystod eang o allu o fewn y dosbarth. Mae'r gwaith o fonitro'r ysgol wedi dangos bod y disgyblion yn dod yn fwy annibynnol ac yn dewis heriau sy'n eu hymestyn. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy o waith er mwyn gwella'r amgylchedd dysgu i hwyluso annibyniaeth ymhellach.
- Cyflwynwyd system cynllunio ysgolion newydd effeithiol gan ddefnyddio SharePoint ac Excel. Mae'r athrawon yn cynllunio ar y cyd ag eraill yn y ffederasiwn i sicrhau datblygiad sgiliau effeithiol. Mae'r athrawon wedi bod ar gyrsiau ar gynllunio effeithiol ar gyfer heriau / cenadaethau yng Nghyfnod Allweddol 2. Ac mae effaith y gweithgarwch dysgu proffesiynol hwn yn amlwg yn arferion yr ystafell ddosbarth. Mae cyfrifoldebau staff wedi'u hailddosbarthu yn unol â'r meysydd dysgu newydd. Mae'r staff wedi bod yn ymwneud ag arsylwi dysgu a chraffu ar waith disgyblion ac wedi creu adroddiadau gwerthusol sydd wedi'u rhannu â'r corff llywodraethu. Mae'r gwaith monitro gan staff yn bwrpasol ac yn unol â chynllun datblygu'r ysgol.
- Mae'r ysgol wedi gweithredu strategaethau'n llwyddiannus i gynyddu proffil y Gymraeg. Maent wedi ennill y wobwr efydd ac er mwyn symud ymlaen i weithio ar

y wobwr arian, penderfynwyd cadw'r 'Criw Cymraeg' er mwyn cynnal cysondeb, cyn meddwl am newid aelodau ym mis Medi. Roedd y Criw Cymraeg o'r farn nad oedden nhw eisiau cael eu gwobrwyo am siarad Cymraeg yn ystod y flwyddyn gyntaf, ond rydym bellach wedi penderfynu dechrau gwobrwyo ymdrech, rhuglder a chywirdeb o fis Medi ymlaen. Darparodd Ynni Da sesiwn am gerddoriaeth Gymraeg gyda phawb, ac yna disgo pŵer pedal ar yr iard yn yr heulwen. O ganlyniad, mae'r ysgol wedi penderfynu dewis band / artist Cymraeg gwahanol bob pythefnos. Bydd eu cerddoriaeth yn aml yn cael ei chwarae, a bydd y Criw Cymraeg yn gwrando ar FM Cymru i wneud ymchwil. Er mwyn llwyddo yn y wobwr arian, mae angen i'r ysgol weithio gyda'r gymuned, ac roedd yn meddwl y gallai fod yn syniad gweithio fel clwstwr i hyrwyddo'r Gymraeg yn ardal Mynyddygarreg a Chydwelli.

## **Gofal, cymorth ac arweiniad**

- Mae'r ysgol yn gweithredu fel cymuned hapus a gofalgar. Rhoddir blaenoriaeth uchel i lesiant disgyblion.
- Mae'r ysgol yn olrhain ac yn monitro cynnydd a llesiant y disgyblion yn effeithiol, sy'n cynnwys data presenoldeb ac ymddygiad, wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r wybodaeth hon yn bwydo'n bwrpasol i mewn i'r prosesau hunanarfarnu.

## **Arweinyddiaeth a Rheolaeth**

- Penodwyd y Pennaeth presennol i'w swydd ym mis Ionawr 2020 mewn ffederasiwn anffurfiol gydag Ysgol Gwenllian. Roedd y Pennaeth blaenorol wedi bod yn ei swydd o fis Medi 2018 tan fis Rhagfyr 2019.
- Mae'r pennaeth presennol, fel y pennaeth blaenorol, yn darparu arweinyddiaeth gref ac yn canolbwyntio'n llwyddiannus ar godi safonau'r disgyblion. Ceir gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol a chaiff hyn ei gyfleu i'r holl staff, y disgyblion a'r rhieni. Mae cymuned yr ysgol gyfan yn gweithio'n agos fel tîm er budd pob disgybl ac maent yn sicrhau bod llesiant disgyblion wrth wraidd cymuned yr ysgol.
- Mae gan y llywodraethwyr afael dda ar safonau'r ysgol. Maent yn ymwybodol o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella, maent yn cefnogi'r ysgol yn effeithiol ac yn herio arweinwyr yn bwrpasol.
- Mae'r gweithdrefnau hunanarfarnu yn effeithiol ac yn ystyried ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol, megis dadansoddi data, arsylwadau gwersi a threon dysgu. Mae'r staff yn defnyddio'r wybodaeth hunanarfarnu yn dda i nodi blaenoriaethau gwelliant yr ysgol ac i adolygu cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol.
- Mae cynllun datblygu'r ysgol yn cynnwys camau gweithredu perthnasol a mesuradwy ar gyfer gwella, yn nodi cerrig milltir clir ar gyfer monitro ac yn nodi'r staff a'r llywodraethwyr sy'n gyfrifol am bob agwedd.
- Mae'r gweithdrefnau ar gyfer rheoli perfformiad staff yn gadarn ac yn cysylltu'n glir â blaenoriaethau datblygu'r ysgol a gofynion proffesiynol unigol y staff. Mae hyn yn helpu i sicrhau dull gweithredu cyson ac yn cyfyngu ar effaith unrhyw amrywiant yn yr ysgol o safbwynt y safonau dysgu ac addysgu.
- Mae'r ysgol yn canolbwyntio'n benodol ar ddatblygu holl sgiliau'r staff, a cheir ystod werthfawr o gyfleoedd hyfforddi a chyrtsiau penodol ar eu cyfer.

- Mae'r ysgol yn mynd i'r afael ag unrhyw achosion o danberfformio yn effeithiol drwy'r system rheoli perfformiad.
- Defnyddir grantiau penodol yn bwrpasol i sicrhau bod grwpiau penodol o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da. Gwneir defnydd da o'r grant datblygu disgyblion er mwyn gwella'r ddarpariaeth i ddatblygu ymhellach sgiliau llythrennedd a rhifedd disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n gymwys yn gwneud cynnydd da yn eu sgiliau darllen o'u manau cychwyn.

## **Effaith y cynnig**

Bydd y cynnig yn sicrhau ymagwedd gyson at addysgu ar draws yr ysgol, gan felly leihau'n briodol amrywiant yn yr ysgol. Bydd y cyfle i rannu syniadau ac arferion da hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion a staff.

Bydd llesiant y staff hefyd yn gwella gan y bydd modd iddynt rannu cyfrifoldebau.

## Ysgol Gymraeg Gwenllian

Arolygwyd Ysgol Gymraeg Gwenllian ddiwethaf gan Estyn ym mis Ebrill 2014 pan farnwyd bod safonau'r ysgol a'i gallu i wella yn 'ddigonol'.

Ar hyn o bryd addysgir disgyblion mewn pum dosbarth – Dosbarth Meithrin/Derbyn, dosbarth Blwyddyn 1/2, dosbarth Blwyddyn 3, dosbarth Blwyddyn 4 a dosbarth Blwyddyn 5/6. Cyflogir Pennaeth (0.8) yn yr ysgol. Ceir hefyd Bennaeth Cynorthwyol, 5 athro llawn amser (y mae un ohonynt ar Absenoldeb Mamolaeth ar hyn o bryd), 4 Cynorthwydd Addysgu llawn amser ac 1 x Cynorthwydd Addysgu 0.8.

### Safonau

- Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwranddo'n astud ar ei gilydd ac ar oedolion yn yr ystafell ddosbarth. Mae llawer o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu sgiliau llafar Cymraeg cyson dda ar y lefelau disgwylidig ar gyfer eu hoedran a'u gallu. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn cael rhywfaint o anhawster ynganu'n gywir, ac yn cael cymorth gan raglen ymyrraeth. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion CA2 yn gallu ac yn barod i drafod eu gwaith yn gynhwysfawr a gweithio'n effeithiol yn ystod tasgau llafaredd gan roi rhesymau trylwyr dros eu barn. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn tueddu i droi at y Saesneg wrth gyfathrebu â'u cyfoedion.
- Mae llawer o'r disgyblion yn darllen ar lefel a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran a'u gallu. Mae llawer o'r disgyblion yn darllen yn gywir ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'r testun. Gall llawer o ddisgyblion y cyfnod sylfaen adnabod llythrennau a seiniau'n effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen uchaf yn gallu datrys geiriau anghyfarwydd gan roi dealltwriaeth iddynt yn llwyddiannus. Gall llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol ragweld yn bwrpasol beth allai ddigwydd nesaf mewn storïau. Fodd bynnag, dim ond tua hanner y disgyblion sy'n darllen yn rhugl a chyda mynegiant o flaen cynulleidfa.
- Mae llawer o waith ysgrifenedig y disgyblion yn briodol i'w hoedran a'u gallu. Mae sillafu a gramadeg yn gyson dda yng ngwaith y mwyafrif o'r disgyblion. Mae arddull llawysgrifen a chyflwyno llawer o'r disgyblion yn gyson. Fodd bynnag, mae yna ychydig o ddisgyblion nad ydynt yn cyflwyno eu gwaith yn ddigon da. Mae ystod gynhwysfawr o genres yng ngwaith y disgyblion ac mae llawer yn defnyddio atalnodi effeithiol i drefnu eu gwaith. Mae llawer o ddisgyblion CA2 yn cynllunio ac yn ailddrafftio rhannau o'u gwaith yn llwyddiannus yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau. Mae llawer o ddisgyblion hefyd yn trosglwyddo eu sgiliau ysgrifennu'n dda i dasgau ar-lein a thrawsgwricwlaidd. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion CA2 yn defnyddio geirfa gynhwysfawr yn fedrus i ennyn diddordeb darllenwyr.
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'u sgiliau rhifedd yn effeithiol mewn gwahanol gyd-destunau. Mae tystiolaeth o'r profion cenedlaethol yn dangos bod gan y rhan fwyaf o ddisgyblion sgiliau rhesymu cryf tra bod gan lawer ohonynt sgiliau rhifedd cryf. Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth gynhwysfawr o werth lleoedd ac mae llawer o ddisgyblion yn y CA2 uchaf yn rhoi degolion yn eu trefn gywir yn gyson. Mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso eu sgiliau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn effeithiol. Er enghraifft, datgodi problemau o'r Ail Ryfel Byd. Gall y mwyafrif o'r disgyblion ddatrys problemau sy'n cynnwys arian a

mesurau sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu yn fedrus. Gellir gweld llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu sgiliau rhifedd da yn dda mewn gwersi mathemateg ac ar draws y cwricwlwm. Mae bron pob un o'r disgyblion CA2 uchaf yn cymryd rhan mewn gweithgareddau Synnwyr Arian (Llythrennedd Ariannol) ac mae'r rhan fwyaf yn datblygu dealltwriaeth gref o gyflogau, slipiau cyflog, cyllidebu a benthyca arian.

- Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion sgiliau TGCh gwerthfawr ar gyfer eu hoedran a'u gallu. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod gynhwysfawr o gymwysiadau i gefnogi eu dysg ar draws y cwricwlwm. Mae llawer o ddisgyblion yn creu cyflwyniadau amlgyfrwng effeithiol am eu gwaith/thema/ymchwiliadau sy'n cynnwys codau QR, delweddau a fideos. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'r rhyngwyd yn ddiogel i ymchwilio'n drylwyr i wybodaeth ar-lein a rhannu eu canfyddiadau drwy J2e a Padlet. Fodd bynnag, mae angen i'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol ganolbwyntio mwy ar ddatblygu sgiliau staff a disgyblion ymhellach.

## Safonau Llesiant

- Gall y rhan fwyaf o ddisgyblion weithio'n annibynnol a rhoi rhesymau trylwyr dros eu barn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adeiladu ar eu gwybodaeth flaenorol yn effeithiol ac yn addasu eu sgiliau mewn sefyllfaoedd newydd er mwyn gwneud cynnydd effeithiol.
- Mae tystiolaeth o holiaduron disgyblion CA2 (Hydref 2019) yn dangos bod gan bron pob disgybl agweddau cadarnhaol tuag at fyw'n iach. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae bron pob disgybl yn gwybod enw'r Uwch-swyddog Amddiffyn Plant
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hapus i gymryd cyfrifoldeb am arwain grwpiau ysgol a chwarae rhan lawn ym mywyd yr ysgol. Mae'r Cyngor Ysgol, yr Eco-gyngor, y Llysgenhadon Chwaraeon a'r Uwch-lysgenhadon (Hawliau Plant) yn chwarae rôl bwysig ym mywyd yr ysgol ac maent yn effeithiol wrth wneud penderfyniadau. Roedd y Cyngor Ysgol yn rhan annatod o'r gwaith o ddylunio adeilad newydd yr ysgol ac maent wedi gwneud cyfraniadau gwerthfawr tuag ato. Mae gan y Cyngor Ysgol hefyd Flwch Awgrymiadau i sicrhau bod pob disgybl yn chwarae rhan mewn penderfyniadau ynglŷn â'r ysgol.
- Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos gofal, parch a chonsyrn tuag at eraill ac yn cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain. Ysgol ag ethos Cristnogol cryf yw Ysgol Gymraeg Gwenllian lle caiff disgyblion eu hannog i barchu a gofalu am holl aelodau cymuned ac adeilad yr ysgol.
- Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cymryd rhan lawn yn yr ysgol a'r gymuned ehangach.
- Roedd tuedd ar i lawr o ran presenoldeb o 95.8% i 94.3% rhwng 2015 a 2017. Fodd bynnag, bu tuedd ar i fyny dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gan gynyddu eleni i 95.25%.

## Addysgu a Phrofiadau Dysgu

- Mae llawer o'r gwaith addysgu, a'i effaith ar ddysg a chynnydd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gyson dda. Mae nodweddion addysgu da a rhagorol wedi'u diffinio'n dda. Fodd bynnag, o fewn lleiafrif o arferion ystafell ddosbarth cânt eu cymhwysu'n anghyson.
- Mae'r ysgol yn ystyried blaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae dealltwriaeth y staff a'r disgyblion o'r pedwar diben craidd yn datblygu'n dda, a bu cynnydd da yn y ddarpariaeth awyr agored o fewn y cyfnod sylfaen. Fodd bynnag, mae lle i ddatblygu hyn ar draws yr ysgol ymhellach.
- Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys sy'n cael ei gyfoethogi gan brofiadau ysgogol a heriol sy'n diwallu anghenion bron pob disgybl. Amlygodd yr arsylwadau gwersi fod y disgyblion yn cael her werthfawr mewn llawer o wersi.
- Mae'r ysgol wedi gweithio'n llwyddiannus gydag ysgolion eraill i rannu arferion da, er enghraifft ar See-Saw, i gasglu tystiolaeth ac arsylwadau i wella asesiadau athrawon a safonau disgyblion yn eu tro. Mae'r ysgol hefyd yn gweithio'n effeithiol mewn cydweithrediad fel rhan o driawd i rannu arferion da ar draws ysgolion a chydweithio i ddatblygu, er enghraifft, dysgu annibynnol yng nghyfnod allweddol 2.
- Mae gan bob aelod o staff rolau a chyfrifoldebau sydd wedi'u diffinio'n glir, a bodlonir safonau proffesiynol yn llwyddiannus yn y rhan fwyaf o achosion.
- Ceir strategaethau llwyddiannus i nodi a rhannu arferion effeithiol. Fodd bynnag, mae lle i rannu arferion da yn well yn fewnol o fewn yr ysgol.
- Mae prosesau cadarn ar waith i olrhain cynnydd disgyblion a nodi anghenion yn effeithiol ym mron pob achos.
- Mae asesiadau athrawon yn gyson ac yn gywir.

## Gofal, Cymorth ac Arweiniad

- Caiff bron pob disgybl ei olrhain yn effeithiol o safbwynt ei gynnydd, ei lesiant a'i bresenoldeb.
- Mae'r ysgol yn olrhain ac yn monitro cynnydd disgyblion yn effeithiol gan ddefnyddio system olrhain ar-lein, sef Incerts, a thargedau a gynhyrchir ar anghenion neu berfformiad disgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cael eu herio'n effeithiol a diwallir anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion.
- Cynhelir asesiadau sylfaenol effeithiol yn y dosbarth Meithrin a Derbyn i ddeall gwir linell sylfaen bron pob disgybl sy'n dechrau yn yr ysgol.
- Gwelir tystiolaeth o lais disgyblion pwrpasol ar ddechrau a diwedd pob tymor ar ffurf diagram corrbyn o syniadau a gweithgaredd i werthuso strategaethau a chynnwys ar ddiwedd y tymor.
- Drwy gydol y tymor mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i gynllunio, gwelir tystiolaeth o hyn yn y gweithgareddau a nodir mewn porffor yn y cyfnod sylfaen, y gwaith o gynllunio darpariaeth yn barhaus a 'meysydd mentro' yng nghyfnod allweddol 2.
- Mae'r defnydd o Speakr a 'Saib a symud' bellach wedi'i wreiddio'n llawn drwy'r ysgol gyfan.

- Mae gan bob disgybl ag ADY Gynllun Datblygu Unigol sydd wedi'i deilwra i'w anghenion a gosodir targedau bob tymor. Cynlluniwyd Proffiliau Un Dudalen i sicrhau bod gan ddisgyblion lais a bod disgyblion yn cyfrannu eu barn a'u hanghenion at eu CDU.
- Mae'r ysgol yn datblygu fel Ysgol Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn.
- Mae gan yr ysgol bolisïau a gweithdrefnau effeithiol ar waith o safbwynt diogelu disgyblion.
- Dilynir gweithdrefnau recriwtio mwy diogel cyn ac yn ystod penodiadau newydd gan fod y Pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr wedi derbyn hyfforddiant Recriwtio Mwy Diogel. Mae'r ysgol yn sicrhau bod dau eirda yn cael eu derbyn cyn i unrhyw aelodau newydd o staff ddechrau.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

- Mae'r pennaeth yn newydd i'w swydd ers hydref 2018. Mae gan y pennaeth a'r staff weledigaeth gyffredin glir sydd wedi gwella deilliannau i'r rhan fwyaf o ddysgwyr.
- Mae'r ysgol wedi mynd trwy lawer o newid. Mae'r pennaeth wedi cynllunio a gweithredu newid yn llwyddiannus yn y rhan fwyaf o ffyrdd. Fodd bynnag, mae cyflymder yr ymroi i newid a chyfrannu ato mewn ychydig iawn o agweddau yn arafach na'r disgwyl.
- Mae gan yr ysgol amserlen hunanarfarnu bwrpasol ac mae yna brosesau hunanarfarnu cryf ar waith. Mae'r prosesau hyn yn nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu'n effeithiol o fewn dysgu ac addysgu. Mae aelodau'r tîm uwch-arweinwyr ehangach bellach yn dod yn llawer mwy hyderus i arwain y prosesau hyn.
- Mae llawer o arweinwyr a staff yn dadansoddi ac yn defnyddio data perfformiad yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'r cryfderau a'r blaenoriaethau i'w gwella. Fodd bynnag, mae angen canolbwyntio llai ar ddata diwedd cyfnod allweddol.
- Mae gan gynllun datblygu'r ysgol flaenoriaethau clir. Mae gan yr ysgol hanes da iawn o godi cyflawniad bron pob disgybl, gan gynnwys disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a grwpiau eraill sy'n agored i niwed, dros gyfnod o dair blynedd.
- Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth dda iawn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella ac maent yn effeithiol iawn wrth gynnal a herio perfformiad yr ysgol.

## Effaith y cynnig

Byddai'r disgyblion a'r staff yn elwa'n fawr ar ysgol newydd o safon Sir Gaerfyrddin â chyfleusterau ar gyfer yr 21ain ganrif, gan fod adeilad presennol yr ysgol o gyflwr gradd B ac nid yw'r cyfleusterau'n ddigon da.

Bydd safle newydd ag adnoddau gwell yn gwella profiadau dysgu'r disgyblion yn ogystal â gwella llesiant staff a disgyblion.



Bydd y cynnig yn sicrhau ymagwedd gyson at addysgu ar draws yr ysgol, gan leihau'n briodol amrywiant yn yr ysgol. Bydd y cyfle i rannu syniadau ac arferion da hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion a staff.

Bydd llesiant y staff hefyd yn gwella gan y bydd modd iddynt rannu cyfrifoldebau.

## Y Broses Ymgynghori

Bydd yr ymgynghori ynghylch y cynnig hwn yn dilyn y canllawiau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn unol â'r hyn a nodwyd yn y Côd Trefniadaeth Ysgolion (2018).

### Â phwy yr ymgynghorir?

Anfonir y ddogfen hon at y partiön canlynol sydd â diddordeb, sef:

Staff (Athrawon a Staff Atodol)	Cyfarwyddwyr Addysg - yr holl Awdurdodau Cyfagos
Llywodraethwyr a Rhieni/Gwarcheidwaid	Cyfarwyddwr Addysg Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig Rufeinig
Cynghorwyr Sir Lleol	Estyn
Cynghorwyr Cymuned	Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol
Aelod o'r Senedd (AS) / Aelodau Rhanbarthol / Aelod Seneddol (AS)	Ysgolion Cynradd ac Uwchradd cyfagos
Gweinidogion Llywodraeth Cymru	Yr holl undebau perthnasol
Partneriaid AAA	Comisiynydd y Gymraeg
Is-adran Anghenion Addysgol Arbennig yr Awdurdod Lleol	Y Comisiynydd Heddlu a Throseddau Lleol
ERW – Ein Rhanbarth ar Waith	Dechrau'n Deg
	Gofal Plant / Blynyddoedd Cynnar
Cymunedau am Waith +	Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Cymunedau am Waith	Y Gronfa Waddol
Cyfuno	Teuluoedd yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin

***\*Anfonir copiâu o'r ddogfen ymgynghori at Benaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr yr ysgolion yn nalgylch cyfagos yr ysgolion sy'n destun y cynigion.***

## Y Cyfnod Ymgynghori

Mae'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynigion yn dechrau ar 11 Ionawr 2021 ac yn dod i ben ar 21 Chwefror 2021.

a

Gall ymgynghoreion gyflwyno'u sylwadau o blaid neu yn erbyn cynnig. Ni fydd yr ymatebion a geir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol. Os dymuna ymgynghoreion wrthwynebu, bydd angen iddynt wneud hynny'n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol y manylir arno ar dudalen 36.

### Ystyried eich sylwadau

Yn ystod y cyfnod ymgynghori gallwch ofyn cwestiynau a mynegi eich barn drwy ysgrifennu llythyr i'r cyfeiriad isod neu drwy lenwi arolwg ar-lein gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol:

### [Arolwg Snap](#)

Dylid anfon llythyrau i'r cyfeiriad canlynol heb fod yn hwyrach na chanol dydd ar 21 Chwefror 2021:

Mr Gareth Morgans, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,  
Adeilad 2, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, SA31 3HB  
Neu drwy e-bost at: [aaprma@sirgar.gov.uk](mailto:aaprma@sirgar.gov.uk)

### Sesiynau galw heibio

Oherwydd goblygiadau parhaus y pandemig Coronafeirws, cynhelir y sesiwn galw heibio ar ffurf rithwir drwy Microsoft Teams ar **25 Ionawr 2021 am 4:30pm am gyfnod o ddwy awr**. Fodd bynnag, os nad yw hyn yn addas i chi, gallwn gynnig dulliau cyfathrebu amgen fel e-bost neu alwad ffôn.

Os hoffech ddod i'r sesiwn galw heibio rithwir, cysylltwch â Mrs Rhianydd Evans neu Mr Martin Jones drwy'r cyfeiriad ebost uchod i fynegi eich diddordeb **20 Ionawr 2021**.

### Ymgynghori â Disgyblion

Bydd cyfle i ddisgyblion yr ysgolion sy'n destun y cynigion gymryd rhan yn y broses ymgynghori.

Bydd y wybodaeth a gesglir o'r sesiynau ymgynghori â'r disgyblion yn rhan o'r adroddiad ymgynghori a gyflwynir i'r Bwrdd Gweithredol i'w ystyried yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

## **Adroddiad Ymgynghori**

Bydd Adroddiad Ymgynghori'n cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin o leiaf 2 wythnos cyn gwneud penderfyniad ynghylch a ddylid bwrw ymlaen i gyhoeddi hysbysiad statudol. Bydd copïau caled o'r adroddiad hefyd ar gael ar gais. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r materion a godwyd gan yr ymgynghoreion ac yn rhoi ymateb Cyngor Sir Caerfyrddin i'r materion hyn. Hefyd bydd yr adroddiad yn cynnwys barn Estyn ynghylch y cynnig a manylion am yr ymgynghori a gynhaliwyd â'r disgyblion.

Bydd Bwrdd Gweithredol Cyngor Sir Caerfyrddin yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn penderfynu a ydynt am fynd ymlaen â'r cynnig ai peidio.

Os yw'r Bwrdd Gweithredol yn penderfynu mynd ymlaen â'r cynnig mae'n rhaid i Gyngor Sir Caerfyrddin gyhoeddi hysbysiad statudol.

## **Hysbysiad Statudol**

Bydd yr hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin a'i osod yn yr ysgolion sy'n destun cynigion. Bydd copïau o'r hysbysiad ar gael i'r ysgolion eu dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gwarcheidwaid ac aelodau staff (gall yr ysgolion hefyd ddosbarthu'r hysbysiad drwy e-bost).

### **Cyfnod Gwrthwynebu Statudol**

Bydd yr hysbysiad statudol yn amlinellu manylion y cynnig ac yn gwahodd unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu i wneud hynny'n ysgrifenedig cyn pen 28 o ddiwrnodau. Os derbynnir gwrthwynebiadau cyhoeddir adroddiad ynghylch y gwrthwynebiadau ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. Bydd copïau caled o'r adroddiad hefyd ar gael ar gais. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r materion a godwyd ac yn rhoi ymateb Cyngor Sir Caerfyrddin i'r gwrthwynebiadau hynny.

## **Penderfynu ar y Cynnig**

Cyngor Sir Caerfyrddin fydd yn penderfynu ar y cynnig. Gall y Cyngor Sir benderfynu cymeradwyo'r cynnig, gwrthod y cynnig neu gymeradwyo'r cynnig â newidiadau. Wrth wneud hynny, bydd y Cyngor Sir yn ystyried unrhyw wrthwynebiadau statudol a ddaeth i law.

### **Rhoi gwybod am y penderfyniad**

Ar ôl penderfynu ynghylch y cynigion rhoddir gwybod i'r holl bartïon sydd â diddordeb bod y penderfyniad ar gael a fydd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.

## Amserlen y Broses Statudol

Bydd y broses statudol a'r amserlen fel a ganlyn:

11 Ionawr 2021	Dosbarthu'r Ddogfen Ymgynghori hon i bartïon penodol a phartïon eraill sydd â diddordeb.
21 Chwefror 2021	Y dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau ar y cynnig i'r Adran Addysg a Phlant.
27 Ebrill 2021	<p>Bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol er mwyn penderfynu a ddylid mynd ati i gyhoeddi hysbysiad statudol ai peidio. NEU fel arall, daw'r cynnig i ben.</p> <p>Bydd yr Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin o leiaf 2 wythnos cyn cyhoeddi hysbysiad statudol.</p> <p>Os gwneir y penderfyniad i fwrw ymlaen yna cyhoeddir hysbysiad statudol. Bydd yr hysbysiad yn amlinellu manylion y cynnig ac fe'i cyhoeddir ar wefan y Cyngor a'i arddangos ger mynedfa'r ysgol a'r ysgolion sy'n destun y cynigion. Bydd copiâu o'r hysbysiad ar gael i'r ysgol eu dosbarthu i'r rhieni, i'r gwarcheidwaid, ac i'r staff. Ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad caniateir cyfnod o 28 diwrnod pryd y gwahoddir gwrthwynebiadau ysgrifenedig ffurfiol.</p> <p>Bydd yr hysbysiad statudol yn rhoi manylion ynghylch y modd y gallwch gofnodi eich gwrthwynebiadau i'r cynnig.</p>
8 Mehefin 2021	Diwedd y cyfnod hysbysu ffurfiol o 28 diwrnod ar gyfer gwrthwynebiadau. Y Cyngor Sir fydd yn penderfynu ar y cynnig. Gall y Cyngor Sir benderfynu cymeradwyo'r cynnig, gwrthod y cynnig neu gymeradwyo'r cynnig gyda newidiadau, ac wrth benderfynu bydd yn rhoi ystyriaeth i unrhyw wrthwynebiadau statudol a ddaeth i law.
Gorffennaf 2021	<p>Y dyddiad olaf o ran rhoi gwybod i'r rhieni am y bwriad i roi'r cynnig ar waith.</p> <p>Ar ôl penderfynu ynghylch y cynigion rhoddir gwybod i'r holl bartïon sydd â diddordeb bod y penderfyniad ar gael a fydd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.</p>

## **Atodiad A – Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned**

Mae gan bob ysgol ardal y mae'n ei gwasanaethu, a adwaenir fel dalgylch yr ysgol. Disgwylir i bob ysgol ddarparu lle ar gyfer disgyblion sy'n byw yn ei dalgylch ac mae'n ofynnol i ysgolion roi sylw i'r galw parhaus hwn.

Mae'r rhan fwyaf o rieni'n anfon eu plant i'r ysgol leol ond mae gan rieni hawl i fynegi eu bod yn dymuno dewis ysgol wahanol.

### **Ysgol Gynradd Mynyddygarreg**

#### **Dadansoddiad o'r Dalgylch – Data CYBLD Ionawr 2020**

##### **Disgyblion sy'n mynychu'r ysgol o'r tu mewn i'r dalgylch/o'r tu allan i'r dalgylch**

Ar sail data CYBLD Ionawr 2020, roedd y data daearyddol ynghylch dosbarthiad disgyblion dalgylch Ysgol Gynradd Mynyddygarreg yn dangos, o'r 36 o ddisgyblion oedd ar gofrestr yr ysgol, fod 22 yn byw yn y dalgylch a bod y 14 disgybl arall yn dod o'r tu allan i'r dalgylch.

##### **Disgyblion sy'n byw yn y dalgylch sy'n mynychu ysgolion eraill.**

Ar sail data CYBLD Ionawr 2020, roedd 91 o'r disgyblion oedd yn byw yn dalgylch Ysgol Gynradd Mynyddygarreg yn mynychu ysgolion eraill.

Gan gymryd i ystyriaeth y 22 o ddisgyblion sy'n byw yn y dalgylch ac sy'n mynychu Ysgol Gynradd Mynyddygarreg, a'r 91 o ddisgyblion sy'n byw yn y dalgylch ond sy'n mynychu ysgolion eraill, ceir cyfanswm o 113 o ddisgyblion sy'n byw yn dalgylch Ysgol Gynradd Mynyddygarreg.

##### **Cyfleusterau neu wasanaethau eraill y mae'r ysgol yn eu darparu e.e. clybiau ar ôl ysgol / llyfrgell gymunedol**

Mae'r ysgol ar hyn o bryd yn cynnal clwb brecwast i ddisgyblion yn ystod dyddiau'r wythnos rhwng 8:00am a 8.45am.

Cyn y pandemig COVID-19, roedd y disgyblion hefyd yn elwa ar glwb gofal ar ôl ysgol, a oedd yn cael ei gynnal bob dydd Mawrth a dydd Iau rhwng 3.00pm a 5.30pm.

### **Effaith ar y Gymuned**

Ar hyn o bryd mae'r Mudiad Meithrin yn defnyddio'r Neuadd yn Ysgol Gynradd Mynyddygarreg.

## **Ysgol Gymraeg Gwenllian**

### **Dadansoddiad o'r Dalgylch – Data CYBLD Ionawr 2020**

#### **Disgyblion sy'n mynychu'r ysgol o'r tu mewn i'r dalgylch/o'r tu allan i'r dalgylch**

Ar sail data CYBLD Ionawr 2020, roedd y data daearyddol ynghylch dosbarthiad disgyblion dalgylch Ysgol Gymraeg Gwenllian yn dangos, o'r 119 o ddisgyblion oedd ar gofrestr yr ysgol, fod 70 yn byw yn y dalgylch a bod y 49 disgybl arall yn dod o'r tu allan i'r dalgylch.

#### **Disgyblion sy'n byw yn y dalgylch sy'n mynychu ysgolion eraill**

Ar sail data CYBLD Ionawr 2020, roedd 192 o'r disgyblion oedd yn byw yn nalgylch Ysgol Gymraeg Gwenllian yn mynychu ysgolion eraill. Fodd bynnag, o'r disgyblion hyn, roedd 130 o ddisgyblion yn mynychu Ysgol y Castell i gael mynediad i addysg cyfrwng Saesneg. Mae Ysgol y Castell ac Ysgol Gwenllian yn rhannu'r un dalgylch.

Gan gymryd i ystyriaeth y 70 o ddisgyblion sy'n byw yn y dalgylch ac sy'n mynychu Ysgol Gymraeg Gwenllian, a'r 192 o ddisgyblion sy'n byw yn y dalgylch ond sy'n mynychu ysgolion eraill, ceir cyfanswm o 262 o ddisgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gymraeg Gwenllian.

#### **Cyfleusterau neu wasanaethau eraill y mae'r ysgol yn eu darparu e.e. clybiau ar ôl ysgol / llyfrgell gymunedol**

Mae'r ysgol ar hyn o bryd yn cynnal clwb brechwast i ddisgyblion yn ystod dyddiau'r wythnos rhwng 8:00am a 8.45am.

Cyn y pandemig COVID-19, roedd y disgyblion hefyd yn elwa ar glwb gofal ar ôl ysgol, a oedd yn cael ei gynnal o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 3:00pm a 5:30pm.

Mae'r ysgol hefyd yn trefnu dosbarthiadau i rieni i'w galluogi i gynorthwyo eu plant i wella eu sgiliau Rhifedd a Llythrennedd.

#### **Effaith ar y Gymuned**

Oherwydd diffyg lle yn yr ysgol, nid oes unrhyw sefydliadau eraill yn defnyddio adeilad na chyfleusterau'r ysgol.

## Atodiad B – Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Gweledigaeth Cyngor Sir Caerfyrddin yw darparu gwasanaeth a fydd yn sicrhau mynediad i gyfleoedd dysgu o ansawdd uchel i bob plentyn, person ifanc ac oedolyn, ac felly yn eu galluogi i gyflawni eu llawn botensial yng nghyd-destun natur ddwyieithog unigryw'r sir.

Mae'r cynnig hwn yn ategu gweledigaeth ac amcanion y Cyngor ynghylch addysg Cyfrwng Cymraeg, yn unol â'r hyn a nodwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) Sir Gaerfyrddin, 2017 – 2020. Bydd y cynnig yn rhoi mwy o gyfleoedd i gael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg yn ardal Cydweli a Mynyddygarreg gan sicrhau parhad ieithyddol o'r sector meithrin ar hyd y cyfnodau allweddol i'r sector uwchradd fel bod pob disgybl yn datblygu i fod yn rhugl a hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg.

### Ysgol Gynradd Mynyddygarreg

#### Safonau \*

Yn y Cyfnod Sylfaen, caiff disgyblion eu hasesu mewn gwahanol feysydd dysgu. Yn seiliedig ar ddata 2019, roedd 83.3% o'r disgyblion wedi cyflawni o leiaf Ddeilliant 5 mewn 'Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (yn y Gymraeg)'. Yng Nghyfnod Allweddol 2, caiff disgyblion eu hasesu ym mhob un o'r pynciau craidd. Yn seiliedig ar ddata 2019, roedd 75% o'r disgyblion wedi cyflawni o leiaf Lefel 4 mewn Cymraeg Iaith Gyntaf.

#### Gweithgareddau ar ôl ysgol sy'n rhoi cyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio'r Gymraeg

Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn rhedeg Clwb yr Urdd ar gyfer disgyblion. Mae disgyblion hefyd yn cymryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd, Eisteddfod Mynyddygarreg a Chystadleuaeth Nofio'r Urdd.

### Ysgol Gymraeg Gwenllian

#### Safonau \*

Yn y Cyfnod Sylfaen, caiff disgyblion eu hasesu mewn gwahanol feysydd dysgu. Yn seiliedig ar ddata 2019, roedd 92.9% o'r disgyblion wedi cyflawni o leiaf Ddeilliant 5 mewn 'Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (yn y Gymraeg)'. Yng Nghyfnod Allweddol 2, caiff disgyblion eu hasesu ym mhob un o'r pynciau craidd. Yn seiliedig ar ddata 2019, roedd 100% o'r disgyblion wedi cyflawni o leiaf Lefel 4 mewn Cymraeg Iaith Gyntaf.

#### Gweithgareddau ar ôl ysgol sy'n rhoi cyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio'r Gymraeg

Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn rhedeg Clwb yr Urdd i Ddisgyblion. Mae'r disgyblion hefyd yn cymryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd, Eisteddfod Mynyddygarreg ac amryw o Gystadlaethau Chwaraeon yr Urdd (Rygbi, Pêl-droed, Criced, Pêl-rwyd, Nofio a Gymnasteg).



*\* Ni chynhaliwyd unrhyw asesiadau Athrawon Cenedlaethol yn 2020 oherwydd effaith barhaus yr achosion o Goronafeirws. Am y rheswm hwn, defnyddiwyd asesiadau 2019.*

## **Atodiad C – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

### **Cyngor Sir Caerfyrddin Asesu Effaith**

#### **Deddf Cydraddoldeb 2010**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf) yn dwyn ynghyd y deddfau gwrth-wahaniaethu blaenorol ac yn rhoi un Ddeddf sengl yn eu lle. Mae'n symleiddio ac yn cryfhau'r gyfraith, yn dileu anghysonderau ac mae'n ei gwneud yn haws i bobl ei deall a chydymffurfio â hi. Daeth y rhan fwyaf o'r Ddeddf i rym ar 1 Hydref 2010.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb newydd sector cyhoeddus (y 'ddyletswydd gyffredinol'), sy'n cymryd lle'r dyletswyddau unigol yn ymwneud â chydraddoldeb o ran hil, anabledd a rhywedd. Daeth hon i rym ar 5 Ebrill 2011.

#### **Beth yw'r ddyletswydd gyffredinol?**

Nod y ddyletswydd gyffredinol yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus, a'r rhai sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus, yn ystyried sut y gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach drwy hybu cydraddoldeb a chysylltiadau da yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn rhan annatod o ddylunio polisiau a darparu gwasanaethau a'u bod yn cael eu hadolygu'n barhaus. Bydd hyn yn sicrhau gwell deilliannau i bawb.

Mae'r dyletswyddau yn rhwymedigaethau cyfreithiol. Os na chyflawnir y dyletswyddau, gall arwain at her gyfreithiol yn erbyn awdurdodau.

O dan y ddeddfwriaeth cydraddoldeb, mae dyletswyddau cyfreithiol ar awdurdodau cyhoeddus i roi 'sylw priodol' i'r angen am ddileu gwahaniaethu ac i hybu cydraddoldeb o ran hil, anabledd a rhywedd, gan gynnwys ailbennu rhywedd, yn ogystal â hybu cysylltiadau hiliol da. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyflwyno dyletswydd newydd sector cyhoeddus sy'n ymestyn ei chwmpas i oedran, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, a chrefydd neu gred. Mae'r gyfraith yn mynnu bod y ddyletswydd hon i roi 'sylw priodol' yn cael ei dangos yn y broses gwneud penderfyniadau. Mae'n bwysig hefyd nodi fod awdurdodau cyhoeddus sy'n

ddarostyngedig i'r dyletswyddau cydraddoldeb yn debygol hefyd o fod yn ddarostyngedig i'r rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Hawliau Dynol ac felly mae'n ddoeth ystyried fel rhan o'r un broses yr effaith bosibl y gallai penderfyniadau ei chael ar hawliau dynol.

### **Dull Sir Gaerfyrddin o ran yr Effaith ar Gydraddoldeb**

Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn ystyried yr effaith bosibl y bydd ei bolisiâu a'i arferion arfaethedig yn ei chael ar gydraddoldeb, ac er mwyn dangos tystiolaeth ein bod wedi gwneud hynny, bydd angen i bob cynnig gael ei ategu gan yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb atodedig. Os yw'r asesiad hwn yn clustnodi effaith sylweddol, mae'n bosibl y bydd angen rhagor o fanylion.

### **Cyhoeddi adroddiad ynghylch asesiadau**


Os yw'n amlwg o'r asesiad fod yr effaith debygol ar allu'r Awdurdod i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol yn un sylweddol, bydd rhaid iddo gyhoeddi adroddiad.

### **Asesiadau Cychwynnol a Manwl o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

Mae'r Asesiad Cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb (atodiad 1) yn ddull syml a chyflym o asesu effaith polisi, swyddogaeth, gweithdrefn, penderfyniad, gan gynnwys toriadau ariannol, ar un neu ragor o'r nodweddion gwarchoddedig.

Mae'n rhaid i'r Rheolwr Gwasanaeth sy'n gyfrifol am y polisiâu, y swyddogaethau, y gweithdrefnau a'r penderfyniadau ariannol newydd neu ddiwygiedig perthnasol, gynnal o leiaf Asesiad Cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb, a chwblhau Asesiad manwl o'r Effaith ar Gydraddoldeb lle bo hynny'n berthnasol (atodiad 2). Mae'n rhaid atodi'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn bapur cefndir gyda'r adroddiadau i'r Bwrdd Gweithredol ac i'r Pwyllgor Craffu.

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb - Y broses sydd i'w dilyn lle nodwyd goblygiadau o ran Adnoddau Dynol



**Templed ar gyfer Aseiad Cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb Atodiad 1**

<b>Adran:</b> Addysg a Phlant	<b>Cwblhawyd gan (arweinydd):</b> Sara Griffiths	<b>Dyddiad yr aseiad cychwynnol:</b> Chwefror 2020 <b>Dyddiadau adolygu:</b> Chwefror 2021
<b>Y maes a asesir: (h.y. enw'r polisi, y swyddogaeth, y weithdrefn, yr arfer neu benderfyniad ariannol)</b>	Cynnig yw hwn i adolygu'r ddarpariaeth addysg gynradd yn ardaloedd Mynyddygarreg a Gwenllian. Bydd y cynllun yn adleoli Ysgol Gymraeg Gwenllian i safle newydd gyda buddsoddiad i ddarparu mwy o leoedd mewn adeilad ysgol newydd â chyfleusterau ar gyfer yr 21ain ganrif a mannau awyr agored rhagorol. Fel rhan o'r cynllun hwn, y cynnig yw cynyddu nifer y lleoedd yn yr ysgol i 240 (210 + 30 o leoedd meithrin).	
<b>Ydy'r swyddogaeth/polisi, gweithdrefn, arfer neu benderfyniad dan sylw yn bodoli'n barod neu a yw'n un newydd?</b>	Cynnig ynghylch Ad-drefnu Ysgolion – Rhaglen Moderneiddio Addysg	
<b>Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd wrth lunio'r aseiad a'r polisi? (rhestrwch yn unig)</b>		
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif</li> <li>• Y Rhaglen Moderneiddio Addysg</li> <li>• Côt Trefniadaeth Ysgolion 2018</li> <li>• Data CYBLD 2020</li> <li>• Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015</li> </ul>		

<b>1. Disgrifiwch nodau, amcanion neu ddibenion y swyddogaeth/polisi, arfer, gweithdrefn neu benderfyniad arfaethedig a phwy fydd yn cael budd ohonynt.</b>	Nod y cynnig yw dod ag Ysgol Gynradd Mynyddygarreg i ben a chynnwys ei dalgylch yn nalgylch presennol Ysgol Gymraeg Gwenllian. Bydd y cynnig hwn yn cynyddu capasiti a nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn Ysgol Gymraeg Gwenllian ac yn dilyn yr amcanion a'r camau gweithredu fel y nodwyd yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin. Bydd y cynllun hefyd yn rhoi adeilad ysgol newydd i ddisgyblion a staff Ysgol Gymraeg Gwenllian a chyfleusterau sy'n addas ar gyfer dysgu ac addysgu yn yr 21ain Ganrif gyda digon o leoedd ar gyfer disgyblion presennol a rhai'r dyfodol.
---	---

<p><b>Mae'n ofynnol o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fod y Cyngor yn rhoi "sylw priodol" i'r angen i wneud y canlynol:-</b></p> <p><b>(1)</b> dileu gwahaniaethu, aflonyddu a fictimeiddio anghyfreithlon;</p> <p><b>(2)</b> hybu cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau ; a</p> <p><b>(3)</b> meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau (gweler y nodiadau esboniadol)</p>		<p><b>2. Faint o effaith fydd ar bob grŵp/nodwedd warchoddedig o ran tri nod y ddyletswydd? Nodwch a fydd yn cael effaith fawr, effaith ganolog, effaith fach neu ddim effaith o gwbl.</b></p>	<p><b>3. Clustnodwch y risg neu'r effaith gadarnhaol bosibl ar gyfer pob grŵp/nodwedd warchoddedig?</b></p>		<p><b>4. Os oes effaith negyddol anghymesur, pa ffactorau lliniarol ydych wedi'u hystyried?</b></p>
			<p><b>Y Risgiau</b></p>	<p><b>Yr Effeithiau Cadarnhaol</b></p>	
<p><b>Nodweddion gwarchoddedig</b></p>	<p><b>Oedran</b></p>	<p>Effaith fach</p>		<p>Bydd y cynnig yn darparu adeilad ysgol newydd i ddarparu ar gyfer disgyblion 3-11 oed yn adeilad yr ysgol.</p>	
	<p><b>Anabledd</b></p>	<p>Effaith fach</p>		<p>Bydd adeilad newydd yr ysgol yn cydymffurfio'n llwyr â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd gan sicrhau</p>	

			hygyrchedd llawn i bawb.	
<b>Ailbennu rhywedd</b>	Dim	Niwtral		
<b>Hil</b>	Dim	Niwtral		
<b>Crefydd/Cred</b>	Dim	Niwtral		
<b>Beichiogrwydd mamolaeth</b> a	Dim	Niwtral		
<b>Cyfeiriadedd Rhywiol</b>	Dim	Niwtral		
<b>Rhyw</b>	Dim	Niwtral		
<b>Yr Iaith Gymraeg</b>	Dim	Niwtral		
<b>Unrhyw faes arall</b>	Dim	Niwtral		

5. A fu unrhyw ymgynghori/ymgysylltu o ran y nodweddion gwarchoddedig priodol?

DO

NADDO

Mae'r Swyddog Prosiect wedi cysylltu â Phennaeth, Staff a Rhieni Ysgol Gynradd Mynyddygarreg ac Ysgol Gymraeg Gwenllian o ran y cynnig. Ymgynghorir yn llawn â'r holl randdeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol.

6. Pa gam/gamau a gymerwch i leihau unrhyw effeithiau negyddol anghymesur, os bydd rhai? Sicrhau bod yr holl randdeiliaid allweddol yn cael gwybodaeth lawn drwy gydol y broses statudol.

#### 7. Caffael

Ar ôl crynhoi'r dystiolaeth ar gyfer yr asesiad hwn, a oes unrhyw oblygiadau o ran caffael i'r gweithgaredd, i'r cynnig neu i'r gwasanaeth? Ddim yn berthnasol Gofynnir i chi gynnwys canfyddiadau'r asesiad hwn yn eich cynllun caffael. Cysylltwch â'r Uned Caffael Corfforaethol i gael rhagor o gyngor.

#### 8. Adnoddau Dynol

Ar ôl crynhoi'r dystiolaeth ar gyfer yr asesiad hwn, a oes unrhyw oblygiadau o ran adnoddau dynol i'r gweithgaredd, i'r cynnig neu i'r gwasanaeth? Gan y bydd cynnydd yn nifer y lleoedd, mae'n bosibl y bydd angen staff ychwanegol. Fodd bynnag, rhoddir sylw i hyn wrth i'r cynllun ddatblygu, a byddwn yn ymgynghori'n llawn ag Adnoddau Dynol.

<p><b>9. Ar sail y wybodaeth yn adran 2 a 6, a ddylai Aseiad Manwl o Effaith gael ei gynnal o ran y swyddogaeth/y polisi/y weithdrefn/yr arfer neu'r penderfyniad?</b> (argymhellir bod hyn yn digwydd os oes mwy nag un effaith fawr wedi'i nodi yn adran 2)</p>	<p>DYLAI <input type="checkbox"/></p>	<p>NA <input checked="" type="checkbox"/> DDYLAI</p>
<p><b>Cymeradwywyd gan:</b> Pennaeth y Gwasanaeth</p>	<p>Simon Davies</p>	<p><b>Dyddiad:</b> Hydref 2020</p>



